

# Infuse

## Gwasanaethau Arloesol y Dyfodol

### Telerau ac amodau Infuse

Mae'r telerau ac amodau hyn yn llywodraethu Cofrestru ar gyfer Infuse, a ddarperir gan "Nesta" (neu "ni") sy'n gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd (fel Y Lab), Cyngor Sir Fynwy a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Mae Nesta wedi cyhoeddi galwad i sefydliadau wneud cais ar gyfer Infuse ("y Rhaglen"). Darllenwch y telerau ac amodau hyn yn ofalus cyn cyflwyno ffurflen gofrestru i ymuno â'r Rhaglen. Drwy gyflwyno ffurflen gofrestru, rydych yn derbyn y telerau ac amodau hyn ac yn cytuno i gydymffurfio â nhw. Bydd Nesta yn cael ei thrin fel y sefydliad arweiniol ar gyfer y ffurflen gofrestru a bydd yn gyfrifol am gydymffurfio â'r telerau ac amodau hyn gan ei phartneriaid, ac unrhyw un arall sy'n ymwneud â chyflwyno'r Rhaglen.

#### 1. Beth sy'n digwydd ar ôl i chi gyflwyno'ch ffurflen gofrestru?

1.1 Yn dilyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno a nodir yn y Canllawiau Cofrestru Infuse, byddwn yn gwirio (gyda Phrifysgol Caerdydd, Cyngor Sir Fynwy, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, a'n partneriaid) unrhyw ffurflenni cofrestru a dderbynnir sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd a nodir yng Nghanllawiau Cofrestru Infuse.

1.2 Rydym yn bwriadu hysbysu ymgeiswyr llwyddiannus o fewn wythnos o dderbyn eich ffurflen gofrestru. Bydd disgwyl i ymgeiswyr llwyddiannus gwrdd â thîm y rhaglen yn ystod yr wythnosau ar ôl derbyn ein penderfyniad, a bydd hynny'n nodi dechrau'r Rhaglen a lle bydd disgwyl i ymgeiswyr gydweithio â Nesta, ein partneriaid a'n hymchwilyr.

1.3 Penderfyniad Nesta, Prifysgol Caerdydd, Cyngor Sir Fynwy a'n partneriaid ynghylch cymhwysedd; dewis cofrestryddion llwyddiannus; y cyfranogwyr i'w cynnwys yn y rhaglen; a bydd swm a math y cymorth sydd i'w ddarparu (os o gwbl) yn derfynol ac ni fydd unrhyw ohebiaeth yn cael ei chynnal gydag ymgeiswyr aflwyddiannus.

1.4 Bydd Prifysgol Caerdydd yn cynnal gwerthusiad rhaglen cyfochrog o Infuse. Byddwn yn gofyn i gyfranogwyr Infuse gymryd rhan yn y gwerthusiad hwn yn ddiennw, a bod y cyfranogiad yn wirfoddol. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu ar adeg gwneud cais.

1.5 Rhaid i chi a'ch partneriaid dalu unrhyw gostau sy'n ymwneud â chyflwyno eich cofrestriad a'ch cyfranogiad yn y Rhaglen. Rydych yn cytuno i gymryd cyngor cyfreithiol annibynnol os ydych yn pryderu am y telerau ac amodau hyn neu eich cyfranogiad yn y Rhaglen.

1.6 Cadwn yr hawl i wrthod derbyn unrhyw gofrestriadau; atal neu gau'r ffenestr gofrestru neu'r Rhaglen ar unrhyw adeg; amrywio ffurf a sylwedd y Rhaglen neu ymestyn y terfynau amser; lleihau neu gynyddu nifer yr ymgeiswyr a ddewiswyd neu

# Infuse

## Gwasanaethau Arloesol y Dyfodol

faint o gymorth sydd ar gael o dan y Rhaglen; a/neu wrthod unrhyw gofrestrriad neu dynnu lle yn ôl ar y Rhaglen, os ydych chi neu'ch partneriaid yn torri'r telerau ac amodau hyn, yn methu â chymryd rhan lawn yn y Rhaglen, mae eich prosiect y tu allan i amcanion elusennol Nesta, neu os bydd gwrthdaro buddiannau gwirioneddol neu bosibl. Os bydd unrhyw ymgeisydd a ddewiswyd yn tynnu'n ôl neu'n cael ei dynnu'n ôl o'r Rhaglen, efallai y byddwn yn dewis un newydd, ond ni fydd yn rhaid i ni wneud hynny.

1.7 Rydym yn cadw'r hawl i amrywio'r Rhaglen a'r telerau ac amodau hyn ar unrhyw adeg ac yn ôl ein disgresiwn llwyr. Bydd amrywiadau yn dod ar waith o'r dyddiad hysbysu hynny ar ein gwefan, felly mae'n rhaid i chi wirio'r dudalen hon yn rheolaidd i weld y fersiwn gyfredol. Os byddwch yn rhoi cyfeiriad e-bost cyswllt i ni, byddwn yn ceisio rhoi gwybod i chi am unrhyw newidiadau.

1.8 Os na allwch gwblhau'r broses gofrestru oherwydd anabled, rhowch wybod i ni fel y gallwn ystyried sut y gellir gwneud addasiadau rhesymol. Gallwch ein ffonio ar 0207 438 2500.

### **2. Eich addewidion i ni**

Drwy gyflwyno cofrestrriad ar gyfer y Rhaglen, rydych yn cadarnhau drosoch eich hun a'ch partneriaid:

2.1 eich bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a nodir yng Nghanllawiau Cofrestru Infuse ac mae'r holl wybodaeth a deunyddiau a ddarperir i Nesta gennych chi neu'ch partneriaid yn wir, yn gywir ac yn gyflawn a byddwch yn rhoi gwybod i ni ar unwaith am unrhyw newidiadau i'r wybodaeth neu'r deunyddiau a ddarperir;

2.2 eich bod wedi rhoi'r holl wybodaeth i ni y gellid yn rhesymol ystyried ei bod yn berthnasol neu'n angenrheidiol i ni er mwyn ystyried eich cofrestrriad;

2.3 eich bod chi a'ch partneriaid wedi cael, neu y byddwch yn cael yn ôl y gofyn, yr holl awdurdodiadau, cofrestrriadau, trwyddedau, cydsyniadau a chaniatâd sy'n angenrheidiol i gyflwyno'ch cofrestrriad, cyflawni'ch cynnig a chydymffurfio â'r telerau ac amodau hyn;

2.4 wrth gymryd rhan yn y rhaglen rydych yn ymrwymo i olrhain nifer yr oriau rydych yn eu treulio yn gweithio ar y rhaglen.

2.5 wrth gymryd rhan yn y Rhaglen, byddwch chi a'ch partneriaid yn gweithredu'n gyfreithlon, yn foesegol ac yn ddiwyll a bydd yn cydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth cydraddoldeb a gwrth-lwgrwobrwyo ac ag unrhyw gyfreithiau, rheoliadau, canllawiau a chodau ymarfer perthnasol eraill, a byddant yn cydymffurfio â'n gofynion rhesymol, gan gynnwys mewn perthynas ag iechyd a diogelwch, wrth fynychu cyfweiliadau a gweithdai fel rhan o'r Rhaglen;

# Infuse

## Gwasanaethau Arloesol y Dyfodol

2.6 nid oes gennych chi nac unrhyw un o'ch partneriaid unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu bosibl gyda Nesta, Prifysgol Caerdydd, Cyngor Sir Fynwy na Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (gan gynnwys gyda'u hymddiriedolwyr, swyddogion a chyflogeion) wrth gyflwyno'ch cofrestrriad neu wrth gydymffurfio â'r telerau ac amodau hyn, a byddwch yn rhoi gwybod i ni ar unwaith os byddwch yn dod yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau o'r fath

### 3. Defnydd y Wybodaeth

3.1 Os byddwch yn gwneud cais i gymryd rhan yn y Rhaglen neu gofrestru ar gyfer ein cylchlythyrau, gofynnir i chi roi gwybodaeth bersonol i ni megis eich enw, cyfeiriad e-bost, galwedigaeth a manylion cyswllt eraill megis rhif ffôn cyswllt.

3.2 Byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol i brosesu eich cofrestrriad a gweinyddu'r Rhaglen, ac i anfon diweddariadau a gwybodaeth atoch am y Rhaglen ac i gymryd camau a allai fod yn angenrheidiol i ymrwymo i gontract gyda chi os byddwch yn llwyddiannus.

3.4 Os byddwch yn cofrestru i dderbyn ein cylchlythyr, rydym yn defnyddio Salesforce i anfon y rhain atoch, nodwch fod eu gweinyddion yn cael eu cynnal yn UDA. Os ydych am wybod mwy am sut y caiff eich gwybodaeth ei storio a'i phrosesu, gweler <https://www.salesforce.com/uk/company/privacy/>.

3.5 Wrth ddefnyddio'r llwyfannau trydydd parti hyn, rydym yn dilyn ein diddordeb cyfreithlon i ddefnyddio technoleg trydydd parti er mwyn sicrhau mwy o effeithlonrwydd yn ein sefydliad.

3.6 Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol â Phrifysgol Caerdydd, Cyngor Sir Fynwy, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a phartneriaid asesu trydydd parti eraill (y byddwn yn rhoi gwybod i chi ohonynt o bryd i'w gilydd) yr ydym yn gweithio gyda nhw i redeg y Rhaglen hon ac asesu'r ffurflenni cofrestru. I ddarllen polisïau preifatrwydd Prifysgol Caerdydd gweler <https://www.cardiff.ac.uk/cy/help/privacy> a <https://www.cardiff.ac.uk/cy/public-information/policies-and-procedures/data-protection>.

Hysbysiad preifatrwydd Cyngor Sir Fynwy:

<https://www.monmouthshire.gov.uk/cy/eich-preifatrwydd/>

Mae polisi preifatrwydd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar gael yma:

<https://llyw.cymru/wefo-ar-lein-hysbysiad-preifatrwydd-html>

Os bydd angen i ni rannu eich gwybodaeth gydag unrhyw sefydliadau eraill i'n helpu i weinyddu'r Rhaglen, byddwn yn dweud wrthyich.

# Infuse

## Gwasanaethau Arloesol y Dyfodol

3.7 Bydd unrhyw rannu eich gwybodaeth yn amodol ar gyfrinachedd a mesurau technegol a sefydliadol priodol i gadw eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel.

3.8 Os byddwch yn llwyddiannus yn eich cofrestriad, byddwn yn cadw eich gwybodaeth am 6 mlynedd ar ôl i'r cytundeb yr ydym yn ymrwymo iddo gyda chi ddod i ben, ac os na fyddwch yn llwyddiannus, byddwn yn cadw eich gwybodaeth am 3 blynedd ar ôl diwedd y broses gofrestru, at ddibenion monitro a gwerthuso ac i ddweud wrthyich am gyfleoedd yn y dyfodol i wneud cais am Raglenni tebyg. Os nad ydych am i ni ddweud wrthyich am Wobrau eraill, rhowch wybod i ni drwy ysgrifennu atom yn 58 Victoria Embankment, Llundain, EC4Y 0DS neu e-bostio [info@Nesta.org.uk](mailto:info@Nesta.org.uk).

3.9 Ni fyddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth at unrhyw ddiben arall, oni bai eich bod wedi rhoi caniatâd i ni wneud hynny. Gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

3.10 Os bydd unrhyw wybodaeth sydd gennym amdanoch yn anghywir, neu'n hen, rhowch wybod i ni a byddwn yn diweddarau ein cofnodion.

3.11 Os hoffech wybod pa wybodaeth sydd gennym amdanoch, neu os hoffech ofyn i ni roi'r gorau i ddefnyddio'ch gwybodaeth neu os oes gennych unrhyw gŵyn am sut mae eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio, anfonwch e-bost neu ysgrifennwch atom yn y manylion cyswllt uchod.

3.12 Os ydych yn anhapus gyda'r ffordd yr ydym yn defnyddio'ch gwybodaeth mewn unrhyw ffordd, mae gennych yr hawl i gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Swydd Gaer, SK9 5AF.

3.13 Gall Nesta, Prifysgol Caerdydd, Cyngor Sir Fynwy a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru gynnal cyhoeddusrwydd a hyrwyddo ar gyfer y Rhaglen a chyhoeddi ein hymchwil a'n gwerthusiad mewn perthynas â'r Rhaglen, gan gynnwys data a gesglir mewn perthynas â'ch cofrestriad, er na fyddwn yn cyhoeddi unrhyw wybodaeth gyfrinachol, sensitif neu bersonol heb eich caniatâd. Rydych yn cytuno y byddwch chi a'ch partneriaid yn cymryd rhan mewn cyhoeddusrwydd ar gyfer y Rhaglen ac yn cydsynio ar eich rhan chi a'ch partneriaid i ddefnyddio enwau eich sefydliadau, crynodeb o'ch cofrestriad, ffotograffau/recordiadau o'ch cyfranogiad yn y Rhaglen a data a gasglwyd mewn perthynas â'ch cofrestriad, mewn dyrchafiad a chyhoeddiadau sy'n ymwneud â'r Rhaglen. Rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd yr ydych chi neu'ch partneriaid am ei wneud mewn perthynas â'r Rhaglen gydnabod Nesta a Phrifysgol Caerdydd, Cyngor Sir Fynwy a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a chael eu cymeradwyo gennym o flaen llaw. Byddwch chi neu'ch trwyddedwyr yn cadw'r holl

# Infuse

## Gwasanaethau Arloesol y Dyfodol

hawliau eiddo deallusol mewn unrhyw dechnoleg neu ddeunyddiau sy'n deillio o'ch cofrestrriad ar y Rhaglen.

### **4. Cyfyngu ar Atebolrwydd**

4.1 Ni fyddwn yn atebol i chi, eich partneriaid nac unrhyw un arall mewn perthynas ag unrhyw golled uniongyrchol neu anuniongyrchol, colled economaidd neu golli cyfle sy'n codi o ganlyniad i'ch cofrestrriad i'r Rhaglen, unrhyw doriad gan Nesta o'r telerau ac amodau hyn neu unrhyw ddibyniaeth gennych ar unrhyw ddatganiad a wnaed neu gyngor a roddwyd gennym ni, ein partneriaid neu gontractwyr, neu unrhyw anghydfod rhyngoch chi a'ch partneriaid. Nid ydym yn gwneud unrhyw warant ynghylch cywirdeb na chyflawnrwydd y wybodaeth a ddarperir gan Nesta am y Rhaglen. Rhaid datrys unrhyw anghydfod rhyngoch chi a/neu eich partneriaid a/neu unrhyw ymgeisydd arall rhyngoch chi ac yn annibynnol o Nesta.

4.2 Heb ragfarnu Cymal 4.1, bydd ein hatebolrwydd mwyaf i chi neu unrhyw un arall o dan y telerau ac amodau hyn (os o gwbl) yn cael ei gyfyngu i £500. Ni fydd unrhyw beth yn y telerau ac amodau hyn yn eithrio nac yn cyfyngu ar ein hatebolrwydd am farwolaeth neu anaf personol a achosir gan unrhyw esgeulustod neu gamliwio twyllodrus a wnaed gennym ni.

### **5. Llywodraethu ac Awdurdodaeth y Gyfraith**

Bydd y telerau ac amodau hyn yn cael eu llywodraethu a'u dehongli yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr a bydd y ddau barti drwy hyn yn derbyn awdurdodaeth unigryw llysoedd Lloegr.